



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Grant Gwaith ar Raddfa Fach:

Canllawiau gwneud Cais ar gyfer
Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Tachwedd 2021



Paratowyd y canllawiau yma gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol. Ei bwrpas ydi darparu canllawiau wrth wneud cais am gyllid drwy'r Grant Gwaith ar Raddfa Fach.

Ar gyfer ymholiadau, cysylltwch â'r tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, o fewn Llywodraeth Cymru drwy e-bostio:
RisgLlifogyddArfordirol@llyw.cymru:

Canllawiau – Grant ar gyfer Gwaith ar Raddfa Fach

Cyflwyniad:

Diben y Grant ar gyfer Gwaith ar Raddfa Fach yw galluogi awdurdodau lleol i ymgymryd â chynlluniau lliniaru llifogydd llai gan ddefnyddio cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Ym mis Mawrth 2017, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i glustnodi o leiaf £1 miliwn o'r gyllideb FCERM flynyddol ar gyfer y grant ar gyfer gwaith ar raddfa fach.

Ym mis Chwefror 2017, cafodd y grant ei asesu. Daeth adroddiad y swyddogion i'r casgliad fod y grant wedi llwyddo i leihau'r risg i safleoedd ac eiddo a bod symiau cymharol fach o gyfalaf wedi esgor ar fanteision mawr.

Er bod y gwaith ar raddfa fach, mae llawer o fanteision ehangach yn unol â'r Nodau Llesiant wedi'u cofnodi gan gynnwys:

- Gwellu systemau draenio fel eu bod yn gallu gwrthsefyll effeithiau hinsawdd sy'n newid yn well;
- Cymunedau diogel, sydd wedi'u cysylltu'n dda – gwella'r cysylltiadau ag ysbyty, cartref gofal, a busnesau;
- Sicrhau nad yw llifogydd/erydu arfordirol yn cael effaith ddrwg ar fusnesau; diogelu swyddi;
- Codi ymwybyddiaeth trigolion trwy roi gwybod am lefelau afonydd a rhybuddion llifogydd;
- Cymru iachach, trwy leihau'r gofid sy'n aml yn rhan o'r profiad o lifogydd;
- Defnyddio deunydd lleol i wneud y gwaith;
- Defnyddio contractwyr lleol a llai i wneud y gwaith, sy'n helpu i ddatblygu gweithwyr lleol, a gallai hynny roi hwb i'r Gymraeg;
- Defnyddio dylunwyr mewnol i leihau costau a gwella sgiliau o fewn awdurdodau lleol.

Rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2021, mae gwerth £512 miliwn o grantiau wedi'u rhoi i ragor na 480 o gynlluniau, gan leihau'r risg i fwy na 7,900 o safleoedd ledled Cymru a'u gwneud yn fwy cydnerth.



Y meini prawf cymhwysedd:

Yn debyg i grant craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM), ac yn unol â'n [Strategaeth Genedlaethol](#), mae'n rhaid i waith arfaethedig **leihau'r perygl i bobl ac eiddo** neu eu hamddiffyn i'r un graddau ag y maent yn cael eu hamddiffyn ar hyn o bryd. Dylai roi ei sylw pennaf ar leihau'r risg i gartrefi, yn unol â'n haddewid yn ein Rhaglen Lywodraethu.

Dylai gwaith llai a ariennir gan grant FCERM ganolbwyntio ar ddatrys problem leol sy'n ymwneud â pherygl llifogydd neu erydu arfordirol pan fo achos cadarn dros y gwaith arfaethedig, ac nad oes opsiwn posibl arall. Rhaid bod budd economaidd i'r gwaith a rhaid iddo fodloni'r holl ofynion statudol angenrheidiol. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddangos gwerth am arian wrth gyflawni'r gwaith.

Wrth wneud penderfyniadau cyllido, rhoddir blaenoriaeth i gynlluniau yn ôl y manteision y maent yn eu cynnig, a chyllidir cynifer o gynlluniau ag y mae'r gyllideb yn eu caniatáu.

Caiff y cyllid grant ei ddyfarnu yn unol â chyfraddau grant presennol y Rhaglen FCERM.

Rhaid gwneud y gwaith, ei gwblhau a hawlio'r grant ar ei gyfer yn y flwyddyn ariannol y rhoddwyd y grant i'r cynllun.

Mae enghreifftiau yn y rhestr isod o'r mathau o waith FCERM a fyddai'n gymwys, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau am gymhwysedd, dylech siarad â'r Tîm Llifogydd yn Llywodraeth Cymru:

- Gwaith ar raddfa fach ar seilwaith sy'n bodoli eisoes ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, e.e. gwella sgriniau brigau/cefnfuriau, ail-leinio cwlfertau, adfer systemau draenio a gwaith adnewyddu strwythurol sydd o fudd i adeiladau.
- Gwaith ar raddfa fach ar seilwaith draenio ac amddiffyn newydd sydd o fudd i adeiladau.
- Dulliau Amddiffyn ar Lefel Eiddo – dylid eu gweithredu ar sail gymunedol a rhaid eu cyflenwi a'u gosod*. Ni fyddai cynlluniau ar gyfer busnesau yn unig yn gymwys
- Telemetreg.
- Gwaith Rheoli Llifogydd yn Naturiol (lle mae costau yn cael eu cyfalafu).

*Gwelwyd oedi wrth ymgymryd â llawer o gynlluniau Amddiffyn ar Lefel Eiddo a gyflwynwyd. Mae'n bosibl mai'r rheswm dros hynny oedd problemau fel mynediad i gynnal arolygon, caffael cynhyrchion a gosodwyr, ac ymdrin ag amryw drydydd partion (tenantiaid, perchenogion preifat, landlordiaid, adrannau tai). Rhaid i awdurdodau lleol ddangos eu bod yn deall ac yn gallu rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynlluniau o'r fath.

Gwaith nad yw'n gymwys ar gyfer cyllid:

- Cynlluniau nad ydynt ond yn lleihau risg i ffyrdd neu seilwaith arall. Yn unol â'n Strategaeth Genedlaethol, **rhaid** bod budd i gartrefi ac i fusnesau. Wedi dweud hynny, gallai lleihau risg i ffyrdd a seilwaith fod yn un o'r manteision ehangach a fydd yn gysylltiedig â chynllun.

- Gwaith referniw e.e. codi ymwybyddiaeth – dylid ariannu gwaith o'r fath drwy'r Grant Referniw ar gyfer FCERM.
- Cynlluniau sy'n costio dros £200,000.
- Cynlluniau a fydd yn para mwy nag un flwyddyn ariannol, oni dilynir y dull 'Dylunio Cynllun' a ddisgrifir isod.
- Costau sy'n gysylltiedig ag ymateb i lifogydd neu ymadfer ar ôl llifogydd, e.e. bagiau tywod, galw ar staff i weithio mewn argyfwng pan fo llifogydd, gwaith glanhau ac yn y blaen.
- Gwaith i seilwaith nad yw'n gysylltiedig ag FCERM.

Dylunio cynlluniau

Rydym yn cydnabod bod gwneud gwaith cynllunio ymlaen llaw yn gallu rhoi gwell syniad o gostau'r cynllun a'i fod hefyd yn gallu arwain at gynllun gwell yn y pen draw. Rydym, felly, yn fodlon ystyried ceisiadau am gyllid ar gyfer elfen ddylunio cynllun ar raddfa fach yr ydych yn bwriadu ei adeiladu yn ystod y flwyddyn ariannol ganlynol. O ran cyllid ar gyfer costau dylunio y dylid ei gwblhau yn y flwyddyn ariannol, dylech gadw'r pwyntiau isod mewn cof:

- Os gellir cwblhau'r gwaith dylunio a'r gwaith adeiladu yn ystod un flwyddyn ariannol, dylech gynnwys y ddau gam yn yr un cais. Os nad oes modd gwneud hynny, dylech wneud cais ar wahân ar gyfer y cam adeiladu mewn flwyddyn ariannol ddiweddarach. Rhaid gwneud hynny ymhen 2 flwyddyn i'r dyddiad y cwblheir y cam dylunio.
- Os na fydd y cynllun yn symud yn ei flaen i'r cam adeiladu ymhen 2 flynedd i'r dyddiad y cwblheir y gwaith dylunio, rydym yn cadw'r hawl i gymryd y cyllid a fydd wedi'i ddarparu ar gyfer y cam hwnnw yn ôl.
- Nid oes gwarant y bydd grant ar gael mewn flwyddyn ariannol wedi hynny.
- Rhaid i'r costau dylunio ac adeiladu gyda'i gilydd fod yn llai na £200,000 ar gyfer pob cynllun.

Y broses ymgeisio:

Gwahoddir awdurdodau i gyflwyno ceisiadau ar gyfer cynlluniau unigol sy'n werth hyd at uchafswm o £200,000 yr un, a chânt gyflwyno nifer o geisiadau ar gyfer cynlluniau y gellir eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylid cyflwyno un ffurflen gais ar gyfer pob cynllun.

Ni cheir trosglwyddo cyllid ymlaen i'r flwyddyn ariannol ganlynol a dylid cadw hynny mewn cof wrth gyflwyno ceisiadau, yn enwedig ar gyfer unrhyw gais sy'n ymwneud â gwaith mewn cyrsiau dŵr. Os oes oedi ar gynllun ac nad os modd ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, collir y cyllid a ddyfernir, ac nid oes unrhyw sicrwydd y bydd cyllid ar gael i'r cynllun ym mlynnyddoedd y dyfodol.

Wrth roi blaenoriaeth i'r ceisiadau a ddaw i law, ystyrir y ffactorau a ganlyn:

- Tystiolaeth am lifogydd sydd wedi digwydd neu a oedd bron iawn â digwydd.
- Cyfanswm y cartrefi a fydd ar eu hennill (blaenoriaeth i gynlluniau o 2 neu fwy o gartrefi).
- Amcangyfrif o'r gost fesul cartref.
- Y manteision ehangach.

Rhaid i gynlluniau ddangos gwerth da am arian, felly, ni roddir blaenoriaeth i gynlluniau lle mae'r gost fesul cartref dros £50,000, neu lle mae llai na 2 gartref yn elwa.

Gwahoddir ceisiadau unwaith y flwyddyn, fel arfer cyn dechrau'r flwyddyn ariannol er mwyn gallu rhoi'r grant o ddiwrnod cyntaf y flwyddyn ariannol newydd. O dan amgylchiadau eithriadol, gellid ystyried ceisiadau am grant i gefnogi cynlluniau graddfa fach sy'n codi y tu allan i'r broses ymgeisio flynyddol. Ystyrir pob cais bob yn un gan ddibynnu ar faint o arian fydd ar gael.

Mae'r broses ymgeisio symlach ar gyfer Cynlluniau Graddfa Fach yn golygu bod y grant llawn yn cael ei dalu cyn dylunio ac adeiladu. Nid oes gofyn i Awdurdodau Lleol roi'r un dystiolaeth ag a fyddai ei hangen fel arfer ar gyfer grant cyfalaf, cyn cytuno ar roi'r grant. Fodd bynnag, mae disgwyl i bob Awdurdod Lleol gydymffurfio â'r holl gydsyniadau a chymeradwyaethau statudol angenrheidiol wrth gynnal y cynlluniau hyn.

Manteision ehangach

Gall manteision ehangach ddeillio o waith a ariennir gan y grant a dylid ystyried y rhain yn ystod y broses ymgeisio. Er mai cynlluniau bach yw'r rhain, gallant arwain at fanteision ehangach. Er enghraifft, defnyddio contractwyr lleol i wneud y gwaith hwn a datblygu sgiliau, trafod â thrigolion ac ysgolion, a chefnogi busnesau lleol.

Rhaid i bob corff cyhoeddus gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n hanfodol, felly, eich bod yn ystyried sut y mae'r gwaith arfaethedig yn bodloni'r nodau llesiant a'r egwyddorion datblygu cynaliadwy, a'ch bod yn gallu darparu tystiolaeth gyda'r ceisiadau i ddangos hynny.

Wrth ymgeisio am grant, rhowch enghreifftiau penodol o sut y bydd y gwaith arfaethedig yn sicrhau'r manteision ehangach ac yn cyfrannu at y nodau llesiant.

Tystiolaeth i gefnogi'r cais:

Er bod proses ymgeisio symlach ar gyfer gwaith ar raddfa fach, bydd dal yn ofynnol ichi gyflwyno'r data a'r wybodaeth berthnasol i gefnogi'ch cais. Bydd cyflwyno tystiolaeth gyda'r cais yn hwyluso effeithlonrwydd y broses asesu.

Dylai'r dystiolaeth a gyflwynir gyda ffurflenni cais gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (lle y bo'n briodol):

- Mapiau sy'n dangos lleoliad y gwaith arfaethedig a'r eiddo fydd yn elwa.
- Mapiau llifogydd sy'n dangos y peryglon.

- Adroddiadau Adran 19.
- Ffotograffau/tystiolaeth o lifogydd yn y gorffennol a/neu fapiau wedi'u marcio i ddangos sut mae llifogydd wedi digwydd yn y gorffennol (llwybrau llif ac yn y blaen).
- Llundiau cyn dechrau ar y gwaith adeiladu o'r ardal y bydd y gwaith arfaethedig yn effeithio arni.
- Cyfeiriad at Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol lle y bo'n briodol.

Os na fyddwch yn rhoi digon o dystiolaeth, mae'n bosibl y bydd oedi wrth brosesu'r cais neu gallai gael ei wrthod.

Hawliadau:

Gofynnir am hawliadau bedair gwaith y flwyddyn yn y misoedd canlynol:

- Chwarter 1: Gorffennaf
- Chwarter 2: Hydref
- Chwarter 3: Ionawr
- Chwarter 4: Mawrth

Yn unol â'r cytundeb a anfonwyd at yr awdurdodau lleol ym mis Ionawr 2019, ni fyddwn yn derbyn unrhyw Orchmynion Amrywio i gynyddu gwerth y grant nac i estyn cyfnod Grant ar gyfer Gwaith ar Raddfa Fach.

Er mwyn galluogi hyblygrwydd, bydd un llythyr grant ar gyfer yr holl gynlluniau fel ddigwyddodd yn y blynyddoedd blaenorol. Bydd modd i chi symud grant rhwng cynlluniau os mae costau rhai yn cynyddu neu eraill yn gostwng hyd at werth y grant sydd wedi ei ddyfarnu. Er mae **rhaid** i werth pob cynllun unigol fod o dan £200,000.

Brandio:

Lle bo'n briodol, dylai unrhyw waith a ariennir drwy grantiau Llywodraeth Cymru gael ei frandio a dylid dangos logo Llywodraeth Cymru arno. Mae costau sy'n gysylltiedig â brandio yn gymwys am gyllid grant. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch a fyddai plac yn addas ar gyfer eich cynllun chi, cysylltwch â changen FCERM Llywodraeth Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau ynghylch brand Llywodraeth Cymru ar gael oddi wrth Dîm Brandio'r Llywodraeth: BrandingQueries@llyw.cymru

Rhagor o wybodaeth/manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth am y Grant ar gyfer Gwaith ar Raddfa Fach, cysylltwch â'r Gangen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol: RisgLlifogyddArfordirol@llyw.cymru